# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Donna Watts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd dros Zoom
**Nos Iau 28 Ionawr 2021**

**PRESENNOL:**
**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Gwilym Owen
Y Cynghorydd Griff Morris
Y Cynghorydd Walter Williams
Y Cynghorydd Einir Williams
Y Cynghorydd Bleddyn Williams
Y Cynghorydd Mary Jones

**Cyngor Sir**
Y Cynghorydd Rheinallt Puw
Y Cynghorydd Paul Rowlinson

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Ann Williams
Y Cynghorydd Linda Brown

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Godfrey Northam
Y Cynghorydd Michael Williams

1. **Croesawyd** pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Einir Williams.
   **Ymddiheuriadau** –gan y Cyngr. Dyfrig Jones a Pearl Evans.

**2. Datgan Diddordeb**
Eitem 6-Partneriaeth Ogwen: Y Cyng. Neville Hughes.

**3. Materion Brys**
**3.1 Diffibriliwr ar gyfer Rachub a Gerlan –** penderfynwyd bod y Cyngor yn awyddus i osod un wrth Siop Rachub, ac un arall wrth y Caban yn Gerlan. Y Clerc i siarad gyda'r perchnogion.
**3.2 Parcio yn Ogwen –** ymgynghoriad yn dechrau 1af Chwefror 2021 tan 7fed o Fawrth 2021. Bydd digwyddiad rhithiol ar gyfer ardal Bethesda yn cael ei gynnal 3ydd o Fawrth 2021.
**3.3 Rhestr ceisiadau cynllunio yn y cofnodion** – pleidleiswyd i gadw'r drefn a'r cofnodion fel y maent.

**4. Cofnodion**
Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr 2020.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion**
**5.1** Arwyddion newydd Ogwen Bank – Mae'r arwyddion wedi cael eu tynnu lawr, ond angen i'r polion ddod lawr hefyd.
**5.2** Cyffordd A5 ger Copa – problem gweledEdd gan bod coeden wedi gordyfu yn gardd 87 Stryd Fawr. Y coed wedi eu torri, ond dal yn rhy uchel. Y Clerc i holi unwaith eto.
**5.3** Lloches bws Sgwar Rachub a Braichmelyn –y Clerc i drefnu cyn gynted a bo modd.
**5.4** Ffordd Coetmor, cyflwr y lôn yn ofnadwy, yn enwedig wrth y llyfrgell. Llawer o dyllau angen eu llenwi. Gwaith 'patcho' wedi ei wneud, ond ddim digon da.

**5.5** Stryd Fawr, Rachub – o Capel Carmel at y Sgwâr.  Y ffordd angen sylw.  Y Cyng. Paul Rowlinson am wthio'r mater unwaith eto.
**5.6** Rhos y Nant – dŵr yn sefyll, angen sylw i'r draeni.  Dim ymateb hyd yn hyn.  Cyngor Gwynedd am wneud archwiliad arall ar y safle.
**5.7** CCTV Stryd Fawr – y Clerc i fynd ar ôl Cyngor Gwynedd.
**5.8** Parc Meurig – llechi gyda cerfluniau cymeriadau Llyfr Mawr y Plant.  Angen eu paentio/adnewyddu.  Y Cyng. Rheinallt Puw i'w drafod gyda swyddog LleChi - ar y gweill.
**5.9** Arwyddion stryd – arwydd ar gyfer Sgwar Buddug wedi ei gam-sillafu ac y Cyngor yn awyddus i gael arwydd ar gyfer Lôn Pâb ac Allt Caffi hefyd.  Y Clerc i holi unwaith eto.
**5.10** Llwybr o Gwernydd i Abercaseg – y llwybr wedi dirywio yn ofnadwy.  Cyngor Gwynedd wedi derbyn grant ar gyfer gwneud y gwaith.  Gobeithio bydd y gwaith yn gallu dechrau fis Mawrth.
**5.11** Llinellau melyn ym Mhant Dreiniog – llinellau wedi eu gosod oherwydd y loriau oedd yn arfer ymweld a C L Jones.  Y Cyng. Rheinallt Puw wedi holi CL Jones ac am ddisgwyl i weld pwy fydd perchennog newydd y safle.

**6. Adroddiad Partneriaeth Ogwen**

Dim cyfarfod wedi ei gynnal, ond pawb wedi derbyn copi o'r Adroddiad Blynyddol ac hefyd yr Adroddiad Cymunedol 2020.

**7. Adroddiad Pwyllgor Cyllid**

Yr Is-bwyllgor Cyllid wedi cyflwyno'r Archeb Drafft ar gyfer 2021-22 i'r Cyngor.  Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a'r argymhellion. Hefyd penderfynwyd gohurio trafod y Rhoddion tan mis Chwefror.

**8.  Archeb drafft 2021-22**

Penderfynwyd ar yr archeb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, sef £126,179.00.  Y Clerc i anfon y ffurflen at Gyngor Gwynedd.

**9. Maes parcio Gerlan**

Dim penderfyniad wedi dod ynglŷn a'r cais am fenthyciad i'r Llywodraeth.  Wedi cael ymholiadau am fwy o fanylion ac eglurhad am ambell eitem.

**10. Gohebiaeth**

Roedd pawb wedi cael copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Ionawr 2021'
**10.1** E-bost gan Rondo – ffilmio rhaglen Cynefin ym Methesda Chwefror 15-26.  Y Cyngor yn eu croesawu os yn dilyn holl ganllawiau Cofid.
**10.2** Ebost gan Cyngor Tref Nefyn – y farchnad dai gwyliau – annog y Cyngor i anfon llythyr at y Llywodraeth.  Penderfynwyd bod y Cyngor yn fodlon anfon y llythyr.
**10.3** E-bost gan Un Llais Cymru – gwybodaeth am brosiect 'Dangos' – cynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth ynghylch cymorth (ariannol) sydd ar gael.  Y Cyngor i rannu'r wybodaeth.
**10.4** E-bost gan Un Llais Cymru – diwrnod gweithwyr y GIG, gofal cymdeithasol a rheng flaen – 5ed Gorffennaf 2021.  Y Cyngor am dderbyn y gwahoddiad i gymryd rhan.
**10.5** Ebost Lisa Jên Brown – pryderon am faes parcio arfaethedig Gerlan.  Y Clerc i ymateb.
**10.6** Ebost gan Cyng. Bleddyn Williams – wedi derbyn cwynion am gerbydau wedi parcio ar waelod allt Cilfodan, sy'n gwneud hi'n anodd troi i fyny'r ffordd.
**10.7** Ebost gan Rachel ynglŷn a oriau agor Siop Rachub.  Y Clerc i egluro mai oherwydd Covid a nifer o staff a ganiateir yn y siop yw'r broblem ar hyn o bryd.

**10.8** Ebost gan y Cyng. Michael Williams – materion Rachub.

- Baw ci yn ofnadwy yn yr ardal – trafodwyd bod hyn yn broblem yn y plwy gyfan. Cafwyd wybod bod ymgyrch baw ci i ddod eto yn fuan.
- Man croesi wrth Lôn bach Odro a Llwyn Bedw, a hefyd mesurau arafu traffig rhwng Maes Bleddyn a Rachub – eglurwyd bod na fan croesi ar y gweill gyda'r datblygiad tai gyferbyn a Maes Bleddyn, ond ddim ar y gornel gan ei fod yn fan rhy beryg, ac hefyd mesurau eraill ar gyfer arafu'r traffig.
- Cael palmant o Maes Bleddyn lawr at y fynwent, a hefyd goleuadau ar y ffordd – y Clerc i ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i ofyn wrthynt ystyried ein cais.

**11. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio**

<u>**Penderfyniadau**</u>

**C20/0018/13/LL**

Tir ger Llain y Pebyll, Bethesda

Codi 7 annedd preswyl ar gyfer yr henoed ynghyd â llecynnau parcio a man troi.
**Penderfyniad:** Caniatawyd, gydag amodau.

**C20/0716/13/LL**

1 Lon Sarnau, Bethesda

Cais ar gyfer trosi modurdy i anecs is-raddol i'r eiddo adnabyddir fel '1 Lon Sarnau, Ffordd y Stesion, Bethesda'
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C20/0152/13/LL**

4 Rhes Ogwen

Cais ar gyfer trosi is-lawr eiddo i uned breswyl hunan gynhaliol ynghŷd a rhannu modurdy cefn i fodurdy a phorth car
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C20/0622/13/LL**

Pen Bre Ffordd Y Mynydd, Rachub

Creu croglofft o fewn yr annedd bresennol ynghŷd a gosod ffenestri tô
**Penderfyniad:** Caniatawyd, gydag amodau.

**C20/0819/13/DT**

6 Ffordd Gerlan, Gerlan

Estyniad i'r gegin presennol a chreu balconi uwchben yr estyniad
**Penderfyniad:** Caniatawyd, gydag amodau.

**C20/0878/13/LL**

| | |
|---|---|
| Becws Cae Groes, Ffordd Tanybwlch, Rachub | Estyniad llawr cyntaf i'r becws<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd, gydag amodau. |

**C20/0805/13/LL**

| | |
|---|---|
| Tir ger Gwernydd, Gerlan | Cais ar gyfer adeiladu maes parcio<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |

**C20/0978/13/DT**

| | |
|---|---|
| 28 Allt Pen y Bryn, Bethesda | Cais ar gyfer codi estyniad unllawr ochr i'r eiddo<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd, gydag amodau. |

**C20/1012/13/DT**

| | |
|---|---|
| Llais Afon, 2 Bron Arfon, Rachub | Estyniad unllawr yn y cefn<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd, gydag amodau. |

**<u>Ceisiadau</u>**
**C20/1085/13/LL**

| | |
|---|---|
| Cyngor Gwynedd, Plas Ffrancon, Bethesda<br>*(Cyng. Walter Williams wedi datgan diddordeb*) | Cais ar gyfer newid defnydd tir i greu rhandiroedd |

**Penderfyniad:** Yn dilyn pleidlais (y Cyng. Godfrey Northam heb bleidleisio) y Cyngor yn gefnogol iawn i'r ardd gymunedol a fydd er lles trigolion yr ardal.

**12. Taliadau**

<u>Awdurdodwyd y canlynol</u>

| | |
|---|---|
| Cyflogau (Ionawr) | £342.27 |
| CThEM (Ionawr) | £85.60 |
| Rhys Jones – gosod diffibriliwr | £210.50 |
| Snowdonia Fire Protection | £27.72 |
| Scottish Power | £31.66 |
| Scottish Power | £26.76 |
| Scottish Power | £23.47 |